2023/24

ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL I RIENI

Pennaeth

Ms M. Phillips

2023/24

CYNNWYS

Tud. 3……..……..……Rhagair

Tud. 4……Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Tud. 5…….....Dyddiadau'r Tymor

Tud. 6……Gwybodaeth am yr ysgol

Tud. 7……..……Staffio a niferoedd plant

Tud. 8……Rhoddion i Elusennau

Tud. 10……Datblygiadau Cwricwlaidd a Gweithgareddau amrywiol

Tud. 14……..……Anghenion Dysgu Ychwanegol

Tud. 16.....Gwerthusiad o Gynllun Gwella'r Ysgol 2023-2024

Tud. 18……...Atgofion disgyblion o'r flwyddyn a fu

Tud. 24……..……Adroddiad Ariannol 2023-2024

ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL I RIENI YSGOL Y BERLLAN DEG (2022-2023)

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Y Berllan Deg sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).

We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Y Berllan Deg in accordance with School Governors Annual Report Regulations (Wales).

Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny ar bapur i'r ysgol erbyn Gwener 6ed o Ragfyr.

We do not intend to hold a specific meeting to discuss this report unless a significant number of parents ask for a meeting. If you feel you would like to attend such a meeting, could you please make a written request to the school by Friday 6 December

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am gyflawniad yr ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad.

We hope that you will enjoy reading about our school's achievements during the year. You are welcome to get in touch with the chair of the governors or the headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report.

Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Ysgol y Berllan Deg i chi unwaith eto ar ran Corff Llywodraethol yr Ysgol. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o brif weithgareddau a chyflawniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ni all yr adroddiad roi darlun cyflawn o fywyd yr ysgol, nac o'r gwaith caled, ymroddiad, a brwdfrydedd y mae plant, athrawon a staff cymorth yn ei gyfrannu i'w holl weithgareddau, ond gobeithiwn y byddwch yn teimlo ei fod yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. cipolwg o'r flwyddyn ysgol.

Unwaith eto gwelsom ddiweddglo'r flwyddyn ysgol gyda 'Chwip o Sioe fel uchafbwynt. Rwy'n meddwl y byddech i gyd yn cytuno bod 'Matilda' yn llwyddiant ysgubol ac wedi caniatáu i ni i gyd adlewyrchu y gallwn gyflawni unrhyw beth pan fyddwn yn dod at ein gilydd. Rhaid diolch yn fawr iawn i greadigrwydd ac ymdrechion diflino'r holl staff a gymerodd ran. Nid yn unig ar gyfer cyflwyno'r fath olygfa, ond am roi o'u hamser yn ddi-gwestiwn, gan roi cyfle i'n disgyblion ddysgu a chefnogaeth gadarnhaol drwy gydol y broses.

Ar nodyn llesiant, yn ogystal â'r 'Gampfa Ar yr iard', gwelsom gwblhau un cam o ardal chwarae'r Dderbynfa. Mae'n olygfa wych gweld disgyblion a rhieni fel ei gilydd yn ymgymryd â her y gwahanol offer. Rydym bellach yn y prosesau o ail-baentio gweithgareddau ar yr iard ei hun.

Roedd gan 'Ffrindiau Ysgol Y Berllan Deg' ran enfawr i'w chwarae mewn codi arian ar gyfer llawer o'r newidiadau i'r iard, gan ariannu ardal chwarae'r dderbynfa yn gyfan gwbl. Mae eu hymdrechion codi arian cyson a'u brwdfrydedd wrth drefnu digwyddiadau amrywiol, gan roi incwm gwerthfawr i ni yn yr hyn a fu ac sy'n parhau i fod yn amgylchedd ariannol anodd. Mae cefnogaeth Ffrindiau, rhieni a chymuned yr ysgol wedi bod yn gymorth sylweddol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r Ffrindiau am eu hymroddiad diwyro a'u hymdrechion i gefnogi cymuned yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd.

Rydym ni fel Corff Llywodraethol, ynghyd â'r staff a gyda'ch cefnogaeth chi, yn ymdrechu i sicrhau bod plant Ysgol y Berllan Deg yn hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwneud y cynnydd gorau a allant ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. I gefnogi hyn roedden ni fel ysgol yn falch iawn y llynedd i dderbyn y Wobr Arian ar gyfer ein Siarter Iaith, ond pam stopio fan yna; eleni gwelwn y Wobr Aur yn cael ei chyflwyno, rhywbeth i bawb fod yn hynod falch ohono.

Unwaith eto, parhaodd un o'n heriau mwyaf fel llywodraethwyr y flwyddyn academaidd hon i gydbwyso cyllideb yr ysgol oherwydd y cyfyngiadau ariannol parhaus. Ond wedi dweud hyn, mae swm cadarnhaol o grantiau bellach wedi'u derbyn sy'n caniatáu inni ddal i fyny a rhagweld ychydig yn gliriach. Ochr yn ochr â refeniw Clwb Carco eleni mae rhentu Neuadd yr Ysgol ar benwythnosau i Glwb Ffrangeg, gyda'i gilydd yn gobeithio dangos ein bod bob amser yn chwilio am ffyrdd i fuddsoddi mewn a gwella adnoddau e.e.. amrywiaeth o fewn y cwricwlwm i sôn am un maes yn unig.

Ni fyddem byth wedi gallu gwneud unrhyw un o'r uchod oni bai am ymdrechion diflino cyson staff yr ysgol. Hoffwn ddiolch i Mari, yr holl staff addysgu a chefnogi a phawb sy'n mynd gam ymhellach bob dydd i ddarparu'r addysg a'r cyfleoedd i'n dysgwyr.

Yn dorcalonnus eleni gwelsom golli un o'r bobl wych sy'n llywio dyfodol ein plant. Un o gymeriadau mwyaf yr ysgol, a chefnogwyr YBD y fythgofiadwy Mrs Storm-McBean. Bydd hi bob amser yn cael ei chofio am ei brwdfrydedd yn yr ysgol a thu allan iddi, bydd hi bob amser yn rhan o'n cymuned ac yn ein hatgofion melysaf.

Mae'r adroddiad hwn yn gweld diwedd fy nhymor fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, a Sioned Cardew-Richardson yn Is-gadeirydd. Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall ym mywyd ein teulu ysgol.

A gaf i achub ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig heddychlon a llewyrchus i chi i gyd yn 2025.

Gyda Diolch,

Chris Gibbs

Dyddiadau Tymor 2024-2025

TYMOR	Dechrau Tymor	Dechrau $^{1}/_{2}$ Tymor	Diwedd $^{1}/_{2}$ Tymor	Diwedd Tymor
Hydref	Llun 2 Medi 2024	Llun 28 Hydref 2024	Gwener 1 Tachwedd 2024	Gwener 20 Rhagfyr 2024
Gwanwyn	Llun Ionawr 6 2025	Llun 24 Chwefror 2025	Gwener 28 Chwefror 2025	Gwener 11 Ebrill 2025
Haf	Llun 28 Ebrill 2025	Llun 26 Mai 2025	Gwener 30 Mai 2025	Llun 21 Gorffennaf 2025

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (dim ysgol i'r disgyblion)

02/09/24 (Dydd Llun): Hyfforddiant i'r holl staff
03/09/24 (Dydd Mawrth): Hyfforddiant i'r holl staff
23/09/24 (Dydd Llun): Hyfforddiant i holl staff clwstwr Bro Edern
04/10/24 (Dydd Gwener): Hyfforddiant i'r holl staff

31/01/25: (Dydd Gwener): Hyfforddiant i'r holl staff

05/05/25 (Dydd Llun): ***Calan Mai***

21/07/25: (Dydd Llun): Hyfforddiant i'r holl staff

GWYBODAETH AM YR YSGOL

Cadair y Llywodraethwyr	Mr Chris Gibbs Ysgol Y Berllan Deg Circle Way East Llanedeyrn Cardiff CF23 9LD
Is-Gadirydd	Mrs Sioned Cardew-Richardson
Pennaeth	Ms Mari Phillips
Dirprwy Bennaeth	Mrs Angharad Walpole
Clerc y Llywodraethwyr	Ms Eve Smith

Rhiant Lywodraethwyr

Ms Bethan Holliday Stacey	Hyd 19/12/26
Mrs Alison Carter	Hyd 18/10/28
Mr Christopher Gibbs	Hyd 18/10/28
Dr Angharad Jones	Hyd 18/10/28
Mr David Taylor	Hyd 18/10/28

Llywodraethwyr o'r Staff

Mrs Angharad Walpole (teaching staff)	Hyd 09/09/27
Mrs Rhian Llewelyn Jones (teaching staff)	Hyd 09/06/28
Mr Drew Merchant (non-teaching staff)	Hyd 10/10/27

Llywodraethwyr Cymunedol

Ms Rhian Williams	Hyd 23/09/28
Mr Wyn Griffiths	Hyd 17/11/28
Mrs Ceri Ann Hughes	Hyd 11/05/26

Llywodraethwyr AALl

Mr Rodney Berman	Hyd 30/04/25
Mr Nick Webb	Hyd 30/06/26
Mrs Samantha Vaughan	Hyd 30/06/26
Mrs Sioned Cardew-Richardson	Hyd 26/01/27

STAFF Medi 2024

Meithrin:	Catrin Williams-Jones
Derbyn (Pwyll):	Angharad Walpole
Derbyn (Rhiannon):	Heledd Symons / Rhian Thomas
Blwyddyn 1 (Branwen):	Eleri Browning
Blwyddyn 1 (Llŷr):	Betsan Jenkins
Blwyddyn 2 (Manawydan):	Lucy Thomas / Sioned Wyn Jones
Blwyddyn 2 (Pryderi):	Caryl Parri
Blwyddyn 3 (Esyllt):	Kellie Atkins
Blwyddyn 3 (Tristan):	Rhian Llewelyn Jones
Blwyddyn 4 (Olwen):	Manon James
Blwyddyn 4 (Culhwch):	Ffion O'Brien
Blwyddyn 5 (Macsen):	Siân Ward / Medi Davies
Blwyddyn 5 (Elen):Lowri	Glyn Jones
Blwyddyn 6 (Math):	Adrian Williams
Blwyddyn 6 (Mathonwy):	Lowri John
Cydlynydd ADY:	Non Roberts
Athrawon CPA:	Amy Bull / Lucy Corbett

Mae'r athrawon o'r un flwyddyn addysgu yn parhau i gael amser CPA ar y cyd er mwyn sicrhau cysondeb, datblygiad a thrafodaethau cyson ymhlith yr athrawon.

Cynorthwywyr / Ymyraethau Dysgu:

Meryl Davies (0.8), Dewi Rhisiart (0.6), Lucy Corbett, Veronica Jones de Kiff (0.6), Maxine Curtis (0.8), Alyson Ray (0.8), Louise Holmes (0.6), Hannah Evans, Emily Blofield

NIFEROEDD YM MHOB BLWYDDYN MEDI 2024

Meithrin -	21 bore
	21 prynhawn
Derbyn -	49
Blwyddyn 1 -	41
Blwyddyn 2 -	54
Blwyddyn 3 -	40
Blwyddyn 4 -	55
Blwyddyn 5 -	56
Blwyddyn 6 -	48

Cyfanswm y disgyblion llawn amser (Derbyn – Bl6) = 343
Cyfanswm y disgyblion Meithrin – Bl6 = 385

RHODDION I ELUSENNAU

Bore Coffi Macmillan - £544

Trefnodd disgyblion Blwyddyn 3 fore coffi llwyddiannus ddiwedd Medi 2023 gan godi £544 tuag at elusen Macmillan.

Banc Bwyd Caerdydd

Fel rhan o'n casgliad diolchgarwch casglwyd 126.7kg o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd ym mis Hydref 2023, sef digon i 110 o bobl leol gael parsel bwyd bryd am 3 diwrnod.

Plant Mewn Angen - £395

Trefnodd Cyngor yr Ysgol weithgareddau hwyliog ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo smotiau neu ddillad nos a chodwyd £395 tuag at yr achos da.

Achub y Plant - £190

Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo siwmperi Nadolig a chodi £190 ar gyfer Achub y Plant.

Cyngherddau Nadolig - £790 i Oasis/Ysgol Noddfa

Braf oedd cael gweld plant yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngherddau Nadolig ar sawl achlysur – côr yr ysgol yn Eglwys Christchurch, Llanedeyrn, cyngerdd plant y Derbyn, sioe Nadolig Bl 1 a 2 (2 sioe), cyngerdd plant Meithrin (2 gyngerdd), gwasanaethau carolau Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6 yn Eglwys Glenwood, Llanedeyrn. Casglwyd £790 i gyd yn y 2 wasanaeth carolau tuag at Oasis ac Ysgol Noddfa a bu Blwyddyn 1 hefyd yn casglu teganau a nwyddau at yr elusen fLlamau el rhan o'u gwaith dosbarth.

CODI ARIAN ER COF AM MRS RHIANNON STORM MCBEAN

Dydd Mercher Mehefin 12fed buom yn cofio am Mrs Storm McBean trwy gynnal bore coffi yn neuadd yr ysgol gyda tua 100 o aelodau o gymuned yr ysgol a theulu Rhiannon yn bresennol. Daeth yr holl staff a disgyblion i'r ysgol yn gwisgo porffor a hefyd rhedeg ras hwyl er cof amdani. Llwyddwyd i godi dros £2,800 ar gfyer Ysbyty Velindre ac i brynu mainc borffor i'w osod ar iard yr ysgol er cof amdani.

DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD A GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi
Cynhaliwyd eisteddfod ysgol gyfan eleni gyda llysoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y neuadd. Cynhaliwyd seremoni cadeirio'r bardd yn neuadd yr ysgol yn y prynhawn a phleser oedd gweld disgybl Blwyddyn 6 yn ennill am ysgrifennu barddoniaeth ar y testun Y Daith.

Cwricwlwm i Gymru / Cysylltiadau Ag Ysgol Bro Edern
Mae holl ysgolion clwstwr Bro Edern wedi bod yn cydweithio am y tair blynedd ddiwethaf ar greu cwricwlwm newydd yn unol â Chwricwlwm i Gymru sy'n statudol ers Medi 2022. Mae cyfarfodydd gan aelodau perthnasol o staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd i gynllunio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm newydd gyda'r 4 diben yn ganolog i'r cynlluniau.

Bwyd a Ffitrwydd / Blas am Oes (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)
Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio

â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore. Oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion gydag alergeddau ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chnau i'r ysgol.

Mae disgyblion y Meithrin i Flwyddyn 2 yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr ar gael i'w yfed trwy'r dydd. Gofynnir i bob plentyn ddod â photel ddŵr i'r ysgol gydag enw'r plentyn wedi ei ysgrifennu yn glir arni. Bydd y poteli yn cael eu gyrru gartref i'w golchi yn ddyddiol a disgwylir nhw yn ôl yn yr ysgol bob bore.

Mae'r holl ddisgyblion yn parhau i redeg eu 'milltir y dydd' er mwyn cadw'n iach a heini ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio yn well yn y dosbarth.

Diwrnod y Llyfr
Cafodd yr holl ddisgyblion hwyl yn dathlu darllen gyda llawer o weithgareddau hwyliog wedi eu trefnu, gan gynnwys cyfnewid llyfrau a'r plant hynaf ac athrawon yn mynd i ddosbarth gwahanol i ddarllen stori. Pwrpas y diwrnod oedd hyrwyddo darllen a dangos y gall darllen fod yn hwyl.

Dydd Miwsig Cymru
Cawsom lawer o hwyl yn dathlu cerddoriaeth Cymru trwy wrando ar gerddoriaeth byw yn y neuadd a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau wedi eu trefnu gan y Dreigiau. Uchafbwynt y diwrnod oedd cystadleuaeth 'lip-sync' yn neuadd yr ysgol gyda phob dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Eisteddfod yr Urdd
Cafodd yr ysgol lwyddiant yn Eisteddfod Gylch yr Urdd eleni gyda nifer o ddisgyblion yr ysgol hon yn fuddugol ac yn cynrychioli'r ardal hon yn yr Eisteddfod Sir.

COGURDD
Fel rhan o gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd, cynhaliwyd rownd gyntaf cystadleuaeth coginio Blynyddoedd 4,5 a 6 yn y neuadd ym mis Hydref 2023 a bu disgybl Blwyddyn 5 yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd ranbarthol.

Gweithdai Digidol
Daeth sawl cwmni, gan gynnwys Technocamps a Met Caerdydd, i'r ysgol i gynnal gweithdai digidol i'r disgyblion.

Ysgol Noddfa
Daeth arweinydd y cyngor, Huw Thomas, i gyflwyno tystysgrif i ni mewn gwasanaeth yn yr ysgol ym mis Hydref 2023 a dateh Newyddion Ni (rhaglen newyddion i blant ar S4C) i gyfweld y disgyblion. Cafodd côr yr ysgol hefyd y cyfle i berfformio y tu allan i'r Senedd mewn cynhadledd Ysgol Noddfa ym mis Rhagfyr 2023.

Cyrsiau Preswyl
Treuliodd Blwyddyn 6 wythnos yn Llangrannog gydag ysgolion y clwstwr, cafodd Blwyddyn 5 y cyfle unwaith eto i aros am 2 noson yng nghanolfan awyr agored Abernant yng nghanolbarth Cymru ac am y tro cyntaf bu Blwyddyn 4 yn aros noson yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd ym mis Mawrth 2024.

Prydau Ysgol Am Ddim
Erbyn tymor yr haf 2024 roedd holl ddisgyblion y dosbarthiadau derbyn, Blwyddyn 1,2,3,4,5 a 6 yn cael cynnig cinio ysgol am ddim. Dewis y rhieni yw derbyn y cynnig neu ddarparu pecyn bwyd eu hunain i'w plentyn.

Senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd
Roedd aelodau'r cyngor ysgol yn ffodus iawn i allu mynychu cyfarfodydd Senedd ysgolion Cymraeg Caerdydd yn ystod y flwyddyn a phenderfynwyd bod pob ysgol yn trefnu digwyddiad 'Cymraeg yn y Gymuned'.

Bore Coffi 'Cymraeg Yn Y Gymuned'
Bore Gwener, 17 Mai 2024 cynhaliwyd bore coffi 'Cymraeg yn y Gymuned' er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg. Trefnwyd y bore gan Aelodau'r Dreigiau a'r Cyngor Ysgol a braf oedd cyd-weithio gyda disgyblion y 'Tafodau Tanbaid' o Fro Edern a ddaeth i gynorthwyo. Bu'n fore hyfryd gyda'r côr yn perfformio a nifer o'r gymuned yn cael cyfle i gymdeithasu dros baned.

Sesiwn i Rieni Am Niwroamrywiaeth
Diolch i Mrs Bethan Jones (athrawes ymgynghorol awtistiaeth yr awdurdod) am gynnal prynhawn diddorol i rieni ar Niwroamrywiaeth yn neuadd yr ysgol prynhawn Llun, Mai 20fed. Roedd yn gyfle i rieni wybod mwy am y llwybr niwroddatblygiadol a pha gefnogaeth sydd ar gael gan yr ysgol a'r awdurdod.

Ymwelwyr ac Ymweliadau
Roedd hi'n braf iawn gweld bod nifer o ymweliadau wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn gan gynnwys, Canolfan yr Urdd Caerdydd (cwrs preswyl) Theatr y Sherman, Sain Ffagan, Pwll Mawr, Llangrannog (cwrs preswyl), Abernant (cwrs preswyl) Crucial Crew, Met Caerdydd (gweithdy Gwyddoniaeth), Caerleon, Sŵ Arch Noa ym Mryste, Castell Caerdydd a thraeth Rest Bay ym Mhorthcawl. Fe wnaeth y disgyblion hefyd elwa o ymwelwyr â'r ysgol gan gynnwys gweithdai diogelwch gan ein heddwas cymunedol, a sioeau am hanes Cymru gan gwmni theatr Mewn Cymeriad a oedd yn cynnwys Dic Penderyn i Bl5, Buddug i Fl3, Betty Campbell I Fl6, Mari Jones i ddisgyblion Bl 2.

Wythnos STEM

Trefnwyd wythnos STEM yn yr ysgol unwaith eto ar gyfer ym mis Mawrth 2024 gyda phob blwyddyn yn cynnal gweithgareddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn seiliedig ar thema'r tymor.

Gwobr Aur Siarter Iaith

Bu'r Dreigiau yn brysur trwy gydol y flwyddyn yn anelu at gyflawni'r wobr aur a llwyddom I gael yr achrediad ym mis Mehefin 2024.

Sioe Haf Blwyddyn 3,4,5 a 6

Roedd gwylio sioe Blwyddyn 3,4,5 a 6 yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd ar ddiwedd tymor yr haf yn wefreiddiol. Cafwyd sioe o safon uchel ac mae ein diolch yn fawr i'r holl staff am gyfrannu at lwyddiant y sioe a rhoi profiad mor gofiadwy a gwerthfawr i'r plant.

Arbed Ynni-Goleuadau LED

Yn sgîl llwyddiant Blwyddyn 5 mewn cystadleuaeth gan Evans Electrical i greu posteri i hyrwyddo arbed ynni gosodwyd gwerth £5000 o oleuadau LED yn yr ysgol i arbed ynni ym mis Hydref 2023.

CYSWLLT GYDA RHIENI

FFRINDIAU

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Ffrindiau am drefnu gweithgareddau codi arian amrywiol i ariannu adnoddau newydd i'r ysgol gan gynnwys offer mawr dringo ar iard y Meithrin/Derbyn, gwefan newydd yr ysgol ac ariannu dodrefn i gwtsh darllen newydd blynyddoedd 5 a 6. Trefnodd y Ffrindiau hefyd ffair haf llwyddiannus iawn ar dir yr ysgol ddydd Sadwrn Gorffennaf 6ed i godi arian i'r ysgol. Roedd amrywiaeth eang o stondinau gan gynnwys chwraaeon yr Urdd a siop lyfrau Cantamil. Maent hefyd wedi bod yn brysur yn casglu a gwerthu gwisg ysgol ail-law, crysau-t chwaraeon yn lliwiau llysoedd yr ysgol a hetiau bwced gyda logo'r ysgol arnynt ar gyfer yr haf.

PRYNHAWNIAU AGORED I DDARPAR DEULUOEDD

Cynhaliwyd prynhawniau agored llwyddiannus iawn i ddarpar rieni a'u plant 2-4 oed yn nhymor yr hydref 2023 a thymor y gwanwyn 2024 i geisio dennu mwy o deuluoedd i'r ysgol ac i addysg Gymraeg.

Gwersi Cymraeg I Rieni

Cynigwyd gwersi Cymraeg i rieni yn rhad ac am ddim i rieni Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn llyfrgell yr ysgol. Trefnwyd y gwersi hyn gan Goleg Caerdydd a'r Fro a gobeithiwn y byddwn yn gallu cynnig hyn eto yn ystod 2025.

CYSWLLT GYDA'R GYMUNED

Gwirfoddolwyr Darllen

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwirfoddolwyr darllen sydd yn parhau i ddod i'r ysgol bob bore Llun a Mawrth i ddarllen gyda disgyblion Bl5 a 6.

Menter Caerdydd

Cynhaliwyd darpariaeth gofal plant a Bwrlwm (sesiwn chwarae 2 awr rad ac am ddim trwy gyfrwng y Gymraeg) yn llwyddiannus iawn gan Fenter Caerdydd yn ystod y rhan fwyaf o'r gwyliau ysgol gyda nifer fawr o blant yn mynychu.

Gweithgareddau Chwaraeon a Chystadlaethau Amrywiol

Roedd yn bleser unwaith eto gweld timau'n cynrychioli'r ysgol mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon lleol a rhanbarthol. Yr uchafbwynt i'r bechgyn oedd cael mynd i dwrnament pêl-droed yn Southhampton i gynrychioli Caerdydd ar ôl bod yn fuddugol yn y gystadleuaeth ranbarthol.

Daeth tîm pêl-rwyd merched yr ysgol yn bencampwyr cenedlaethol ym mis Mai 2024 trwy ddod yn fuddugol yn nhwrnament cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Chwaraeoedd y tîm cymysg yn wych hefyd gan gyrraedd y rownd go-gynderfynol.

Mynychodd disgyblion Blwyddyn 3 wersi nofio a chwaraeon amrywiol am wythnos ym mis Mawrth 2024.

Yn ystod y flwyddyn bu Blwyddyn 6 ar gwrs preswyl 4 noson i ganolfan yr Urdd Llangrannog gydag ysgolion eraill clwstwr Bro Edern a bu Blwyddyn 5 yng Nghanolfan Abernant am ddwy noson.

Cafodd Blwyddyn 6 fudd o wersi beicio a drefnwyd gan gyngor Caerdydd ym mis Hydref 2022.

Mae pob dosbarth yn parhau i redeg milltir bob dydd. Y bwriad yw cadw'r disgyblion yn heini a'u helpu i ffocysu yn well yn y dosbarth.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 wersi Ffrangeg bob pythefnos gan athrawes o Ysgol Bro Edern.

Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Parhaodd y cynllun brecwast, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i fynd o nerth i nerth ac

mae'n llawn ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o ddisgyblion wedi cael

lle yn y cynllun hwn, cafodd pob rhiant gyfle i gofrestru ar-lein. Pwrpas y cynllun yw cyflenwi brecwast i'r rhai na fyddent yn cael brecwast gartref fel arall.

Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ers Mis Medi 2021, mae fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig wedi ei ddisodli gan system newydd a diwygiedig o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mrs Non Roberts yw cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/2024 bu'r rhan fwyaf o'r cynorthwywyr yn ei chynorthwyo. Maent yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Defnyddir nifer o ymyraethau amrywiol i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

Cyfleoedd Cyfartal

Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

Polisïau

Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda Miss Phillips.

Iechyd a Diogelwch

Diogelir y drysau allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.

Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

Toiledau

Mae digon o doiledau o amgylch yr ysgol ac fe'u glanheir o leiaf unwaith y dydd. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl.

Bws Ysgol

Mae'r gwasanaeth bws 822 drwy Benylan i'r ysgol wedi ei ymestyn erbyn hyn ac yn cael ei ariannu yn rhannol gan Gyngor Caerdydd. Mae modd archebu lle ar y bws a chael mwy o fanylion drwy gysylltu gyda chwmni New Adventure Travel ar 02920442040. Mae defnyddio bws yn gyfleus ac yn ffordd dda o osgoi traffig ar y ffyrdd neu broblem parcio y tu allan i'r ysgol. Mae hefyd yn ffordd dda i helpu gwella'r amgylchedd yn lleol trwy leihau llygredd o geir sydd yn teithio i ac o'r ysgol.

GWERTHUSIAD O GYNLLUN GWELLA YSGOL 2023-2024

BLAENORIAETH 1 - Parhau i wreiddio prosesau a strategaethau er mwyn codi safonau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg

Roedd yr holl strategaethau a roddwyd ar waith yn 2022/2023 yn parhau i gael eu datblygu. a'u gweithredu yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau darllen yr asesiadau arlein eleni yn y ddwy iaith gan ddangos cynnydd da. Roedd siarad gyda disgyblion Bl 5 a 6 yn dilyn eu hymweliad i Ŵyl Lenyddol y Gelli er mwyn hyrwyddo darllen er mwyn pleser yn profi effeithiolrwydd hyn o ran ennyn eu brwdfrydedd wrth iddynt drafod y llyfrau a brynasant yno. Mae 'Cwtsh Darllen' newydd ar gyfer disgyblion Bl 5 a 6 yn awr wedi ei gwblhau ac yn cael defnydd cyson gan y disgyblion a hyn wedi codi proffil darllen gyda phlant hynaf yr ysgol.

BLAENORIAETH 2 – Cysoni addysgeg drwy'r ysgol yn enwedig medrau annibynnol y disgyblion- ELERI BROWNING; Llywodraethwr cyswllt

Cafwyd hyfforddiant buddiol ar ddefnydd effeithiol o asesu ffurfiannol yn ein diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar Ebrill17eg o dan ofal Eleri Browning ac Adrian Williams yn dilyn y cwrs a fynychwyd ganddynt o dan arweiniad Shirley Clarke. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan aelod o staff addysgu a fu'n rhan o brosiect dysgu annibynnol y consortiwm yn rhannu cynnwys ei hymchwil hi er mwyn rhannu arfer dda trwy'r ysgol gyfan.

Roedd adborth y timau ymchwil gweithredol ar yr hyn sydd wedi gweithio neu heb weithio ar lawr y dosbarth (wrth dreialu strategaethau amrywiol o ran asesu ffurfiannol) mewn cyfarfod staff yn gyfle i drafod sut y gellir datblygu elfennau a drafodwyd ar gyfer oedrannnau gwahanol ym mis Medi 2024.

Wrth graffu ar lyfrau a thrafod gwaith disgyblion gyda nhw daeth yn amlwg bod nifer o agweddau o'r flaenoriaeth hon wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion e.e startegaethau ar sut i wella eu gwaith a cyflawni tasgau yn fwy annibynnol.

BLAENORIAETH 3 – Sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn unigolion iach a hyderus ac yn gyfranwyr mentrus a chreadigol trwy barhau i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru

Wrth graffu llyfrau a siarad gyda disgyblion roedd bron pob un disgybl yn gallu trafod eu themau yn frwdfrydig gan ddangos dealltwriaeth dda o'r hyn a ddysgwyd a pherthnasedd hyn iddyn nhw.

Ein camau nesaf fydd sicrhau bod lle amlwg i lais y plentyn yn ein cynlluniau, rhoi holiadur i'r athrawon i werthuso'r cwricwlwm er mwyn mireinio ymhellach yn ystod y flwyddyn academaidd a pharhau i edrych ar ein prosesau i fesur cynnydd. Roedd mynychu noson ddiwylliannol clwstwr Bro Edern 03/07/24 yn fodd o ddathlu a rhannu arferion da fel clwstwr o ran cynnwys a gwaith disgyblion o ran Cwricwlwm i Gymru.

BLAENORIAETH 4 – Tynhau prosesau hunanwerthuso yr ysgol a threfniadau olrhain cynnydd pob disgybl

Rydym bellach wedi dechrau gweithredu egwyddorion Ysgolion Fel Sefydliadau Sy'n Dysgu er mwyn hwyluso prosesau hunanwerthuso yr ysgol ac adnabod agweddau i'w gwella gan ddechrau gyda lenwi holiadur yn gofyn am farn yr athrawon ar le ydym fel ysgol yn yr adran 'Sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio'. Bydd barn y staff ar yr agwedd hon yn ogystal ag agweddau eraill yn bwydo i mewn i flaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2024-2025.

Rydym yn parhau i edrych ar ein prosesau i fesur cynnydd a bydd pwyslais yn y flwyddyn academaidd nesaf ar sicrhau bod pob aelod o staff addysgu yn gallu defnyddio Traciwr yn hyderus ac effeithiol i allu gweld taith ddysgu pob disgybl ac olrhain eu cynnydd..

BLAENORIAETH 5 – Datblygu Arweinyddiaeth ar bob lefel trwy'r ysgol gyfan

Rydym bellach wedi dechrau gweithredu egwyddorion Ysgolion Fel Sefydliadau Sy'n Dysgu er mwyn hwyluso prosesau hunanwerthuso yr ysgol ac adnabod agweddau i'w gwella gan ddechrau gyda lenwi holiadur yn gofyn am farn yr athrawon ar le ydym fel ysgol yn yr adran 'Sefydlu diwylliant o ymchwilio, arloesi ac archwilio'. Bydd barn y staff ar yr agwedd hon yn ogystal ag agweddau eraill yn bwydo i mewn i flaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2024-2025.

Sefydliwyd Senedd yr ysgol yn nhymor y gwanwyn a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda mi i drafod nifer o faterion ysgol gyfan gan gynnwys trefnu diwrnod codi arian er cof am Mrs Rhiannon Storm McBean, trafod elfennau o'r cynllun gwella ysgol a chael eu ffilmio gan Newyddion Ni ar gyfer S4C am yr etholiad. Byddwn yn datblygu hyn ymhellach yn ystod flwyddyn academaidd hon.

Mae trefniadau hunanwerthuso llywodraethwyr yr ysgol ar waith.

Y FFORDD YMLAEN - CYNLLUN GWELLA YSGOL 2024/2025

BLAENORIAETH 1: Parhau i weithio'n agos gyda'r clwstwr i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion Cwricwlwm i Gymru a datblygu cynlluniau pwrpasol a chyffrous

BLAENORIAETH 2: Datblygu darpariaeth Iechyd a Lles trwy'r ysgol gyfan

BLAENORIAETH 3: Tynhau'r trefniadau ar gyfer prosesau hunan wella ysgol gyfan gan gynnwys monitro ac olrhain cynnydd disgyblion

BLAENORIAETH 4: Parhau i sicrhau dilyniant a chysondeb o ran addysgeg trwy'r ysgol gyfan

ATGOFION DOSBARTHIADAU O'R FLWYDDYN A FU

MEITHRIN

Mae plant Meithrin wedi mwynhau chwarae Lego, dysgu llythrennau Tric a Chlic a chwarae gyda ffrindiau.

Mae plant Meithrin wedi hoffi gyrru'r beiciau a sgwteri, chwarae gyda ffrindiau a bod yn helpwr y Dydd.

Derbyn: Pwyll

Rydyn ni wedi mwynhau

- mynd ar drip ysgol i Gefn Mabli;
- plannu planhigion a dysgu am drychfilod yn y Berllan Fechan;
- defnyddio'r ffrâm ddringo newydd,
- ymarfer canu a pherfformio ar gyfer bore coffi Mrs Storm-McBean,
- rhagfynegi a phrofi pa ddeunyddiau fydd yn cadw Hympti Dympti rhag torri.

Derbyn: Rhiannon

1. Rydyn ni wedi mwynhau ymweld â Fferm Cefn Mabli.
2. Rydyn ni wedi mwynhau chwarae ar yr offer chwarae newydd ar yr iard fach.
3. Rydyn ni wedi mwynhau plannu hadau, chwynnu a dyfrio yn y Berllan Fechan.
4. Rydyn ni wedi mwynhau dysgu caneuon newydd a perfformio yn ein sioe Nadolig a'r bore coffi.
5. Rydyn ni wedi dysgu sut i siarad Cymraeg ac wedi mwynhau dathlu Diwrnod Seren a Sbarc.

Bl. 1: Branwen

Ym Mlwyddyn 1 Branwen rydyn ni wedi cael llawer o hwyl a sbri eleni! Yn ystod y tymor cyntaf dysgon ni am deuluoedd gwahanol ac am bobl sy'n ein helpu. Rydyn ni wedi bod yn garedig iawn gan helpu bobl eraill hefyd e.e. gwneud casgliad i elusen Llamau a Plant mewn Angen. Yn ystod yr ail dymor roedden ni yn lwcus i fynd am dro i'r Maelfa i ddysgu beth sydd yn ein hardal leol a dysgu am y siopau gwahanol. Roedd dysgu am fwyd iach ac afiach yn ddiddorol tu hwnt a dysgon ni am bwysigrwydd golchi ein dwylo trwy wneud arbrawf gyda bara! Yn ystod ein tymor olaf roedd pawb wedi mwynhau dysgu am greaduriaid y môr a'r traeth. Roedden ni wrth ein boddau yn cael mynd ar drip i draeth Porthcawl a chael dal crancod a gwelson ni sawl seren fôr ac anemoni yn y pyllau glan môr. Rydyn ni wedi dysgu llawer o ffeithiau am anifeiliaid y môr a sut i edrych ar eu hôl. Roedden ni wrth ein boddau gyda stori Neli'r Pysgodyn Jeli a chanu cân Sali Sws! Roedd ein diwrnod môr-ladron yn llawn hwyl ac roedden ni wrth ein boddau yn gwisgo fel môr-ladron a chanu ein sianti! Roedd creu cwch yn uchafbwynt i nifer ohonom a chawsom hwyl i weld pa rai fyddai'n arnofio ac yn cario trysor. Mae Aled Afal a'i ffrindiau wedi ein helpu ni gyda'n darllen a'n hysgrifennu ac rydyn ni wedi mwynhau ein sesiynau Tric a Chlic, yn enwedig y caneuon! Rydyn ni wedi mwynhau cael bod yn greadigol trwy greu, lliwio a phaentio. Rydyn ni wedi defnyddio ein dychymyg i greu pethau anhygoel yn yr ardal adeiladu gyda'r knex a'r blociau. Yn fwy na dim rydyn ni wedi mwynhau treulio amser gyda'n ffrindiau yn dysgu a chwarae.

Bl.1: Llŷr

Ym Mlwyddyn 1 Llyr rydyn ni wedi cael blwyddyn wych yn dysgu pethau newydd a chreu atgofion bythgofiadwy! Eleni, rydyn ni wedi dysgu sut i ysgrifennu brawddegau gyda help Aled Afal a'i ffrindiau ac mae pawb wedi mwynhau rapio a chanu'r caneuon Tric a Chlic! Trwy gymryd rhan mewn helfa siapiau 2D a 3D, ac adio arian yn 'Archfarchnad Aled Afal', rydym wedi dysgu sgiliau rhifedd a mathemateg pwysig.

Yn ddiweddar, cafodd pawb lawer o hwyl yn dysgu am greaduriaid y môr trwy ddysgu eu henwau ac ysgrifennu ffeil ffeithiau diddorol am yr anifeiliaid. Cafodd ein dosbarth amser bendigedig ar ein diwrnod môr-ladron, lle cafodd bawb y cyfle i greu hetiau môr-ladron, mapiau trysor, a dysgu am fôr-ladron enwog fel Barti Ddu! Rydym yn ddosbarth creadigol iawn ac wedi cael llawer o brofiadau sydd wedi dysgu ni sut i ddefnyddio offer a thechnegau newydd! Rydym wedi efelychu gwaith yr artist Ruth Jên trwy ddefnyddio paent dŵr a phasteli olew ac roedd creu celf gyda swigod yn un o'n hoff gweithgareddau o'r flwyddyn.

Trwy gynnal arbrofion dosbarth, rydym wedi dysgu sut i fod yn wyddonwyr chwilfrydig. Yn ystod ein hwythnos STEM, fe wnaethon ni helpu Supertaten i achub Tomato o'r lleuad trwy arbrofi gyda meintiau gwahanol o dabledi a dŵr wrth adeiladu rocedi. Mae deall natur a threulio amser yn yr awyr agored yn bwysig iawn i ni! Roedd plannu, tyfu a blasu llysiau yn ein gardd yn ddiddorol iawn! Rydyn ni wedi dysgu pwysigrwydd bod yn garedig ac wedi casglu eitemau a chodi arian tuag at yr elusen Llamau sy'n help plant a menywod digartref. Teithiau addysgol oedd uchafbwynt i nifer ohonom! Rhoddodd ein taith i Rest Bay gyfle i ni ddarganfod creaduriaid y môr mewn pyllau glan môr a dysgu sut i ddal anifeiliaid byw fel crancod! Waw, am flwyddyn!

Bl. 2: Manawydan

Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl ym mlwyddyn 2! Rydyn ni wedi mwynhau creu llawer o bethau crefft fel mygydau Affricanaidd, gwehyddu a chreu mynyddoedd gyda papier mâché. Yn ein gwersi STEM rydyn ni wedi gwneud nifer o arbrofion diddorol, dysgu am egni adnewyddadwy, cynhesu byd eang a dysgu sut i edrych ar ôl ein byd.

Rydyn ni wedi dysgu llawer o bethau newydd yn ein gwersi mathemateg hefyd a'u defnyddio i ddatrys nifer fawr o broblemau! Rydyn ni'n gwybod nifer o dablau hefyd! Mwynheuon ni ein tripiau gwych o amgylch Caerdydd, y Bannau Brycheiniog ac i Sw Arch Noa. Rhai o'n hoff bethau eraill oedd dysgu dawns Affricanaidd a pherfformio'r gân Banua gyda offerynnau taro. Gaethon ni hefyd hwyl yn perfformio ein Sioe Nadolig Rala Rwdins o flaen ein rhieni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ganu yn y Sioe Haf yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd y flwyddyn nesaf pan fyddwn ni ym mlwyddyn 3!

Bl. 2: Pryderi

Rydyn ni'n cofio'n arbennig am y pethau yma:-
Yn nhymor y Nadolig, roedd trip, sef mynd o gwmpas atyniadau enwog Caerdydd, dysgu am Laura Ashley, wnaethon ni actio yn y Sioe Nadolig ac roedd trip i'r theatr.

Yn nhymor Y Pasg, aethon ni i Fannau Brycheiniog, dysgon ni am y fferm ac fe greon ni fynydd yn arddull Gwyn Williams.

Yn nhymor yr haf, aethon ni i'r sŵ, dysgu am Affrica a gwehyddu a chreu mygydau er mwyn codi arian i Water Aid - £105!!

Dros y flwyddyn, creon ni gerdyn pen-blwydd i bawb ym Ml2.

Bl. 3: Esyllt

Uchafbwynt dosbarth Esyllt o flwyddyn 3 oedd y cyfle i chwarae'r pBuzz yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd. Roedd y profiad o chwarae gyda cherddorfa yn ffantastig. Gwnaethom ni fwynhau ein trip i Gaerllion, lle cawsom gyfle i wledda fel y Rhufeiniad ac i edrych ar weddillion y Rhufeiniaid. Ein themâu eleni oedd y Celtiaid a Rhufeiniaid ac fe wnaethom ddysgu llawer am eu ffordd o fyw a'u dylanwad ar Gymru. Fe wnaethon ni fwynhau darllen Cadi a'r Celtiaid, gwehyddu papur, creu mosaig ac ymweld â Bryn Eryr yn Sain Ffagan . Crëwyd cerbydau Rhufeinig a'i rasio o amgylch trac. Daeth yr ysgol ynghyd i ddathlu dydd Gŵyl Dewi ac i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Mwynheuon ni'r gystadleuaeth 'lip sync' a chaneuon ni cân Gwena gan Gwibdaith Hen Frân, a chystadlu yn amrywiaeth o gystadlaethau yn yr Eisteddfod Ysgol.

Rydym wedi datblygu llawer o sgiliau newydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys sut i adio a thynnu mewn colofnau, llawysgrifen glwm a chriced. Ein hoff lyfrau oedd Escape From Pompeii, 'The Bog Baby ac Y Ddinas Uchel. Hefyd, rydym wedi bod yn lwcus iawn i gael llyfrau Saesneg newydd ac rydym yn mwynhau darllen y llyfrau yn ystod amser darllen tawel. Cawsom lawer o hwyl yn plannu yn y Berllan Fechan. Cawsom ni gyfle i ddatblygu ein sgiliau nofio wrth gael gwersi nofio a chwaraeon. Mwynheuon ni bob eiliad o'r gwersi hyn, er ein bod wedi blino'n lan erbyn diwedd yr wythnos! I orffen mae'n rhaid sôn am berfformio'r sioe, Matilda. Cawsom lawer o hwyl yn canu. Mae wedi bod yn flwyddyn fendigedig; rydyn ni wedi mwynhau ym mlwyddyn 3.

Bl. 3: Tristan

Mae ein hamser ni ym Mlwyddyn 3 wedi bod yn fendigedig! Rydym ni wedi mwynhau dysgu am lawer o bynciau diddorol, yn enwedig am y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Yn ystod y flwyddyn, cawson ni'r cyfle i ymweld â Chaerllion. Fe wnaethon ni fwynhau ymweld â'r baddondai a'r amffitheatr Rhufeinig, yn ogystal â gweld yr holl arteffactau diddorol yn yr amgueddfa. Fe wnaethon ni hefyd fwynhau dysgu mwy am y Celtiaid ar ein trip i Sain Ffagan.

Cawson ni'r cyfle i gael gwersi nofio ym Mlwyddyn 3. Fe wnaethom ni fwynhau datblygu ein sgiliau nofio mas draw, ac fe wnaethon ni fwynhau'r sesiynau chwaraeon ym Met Caerdydd hefyd! Rydym wedi croesawu nifer o ymwelwyr i'n dosbarth eleni. Roedd y gweithdy ar greu lloerenni allan o Lego yn gyfle gwych i ni wella ein sgiliau STEM, ac fe wnaethon ni fwynhau dysgu am Micro-bits gyda chwmni Technocamps. Fe wnaethom ni hefyd fwynhau sesiwn ioga gyda Mrs Booth a Mrs Price. Rydym hefyd wedi mwynhau cymryd rhan mewn a dathlu diwrnodau fel Dydd Miwsig Cymru, Eisteddfod yr Ysgol, mabolgampau'r ysgol, a chodi arian yn ystod ein bore coffi. Ym Mlwyddyn 2, roedden ni mewn dosbarthiadau gwahanol. Rydym ni wedi mwynhau'r profiad o gael ein cymysgu cyn dod i Flwyddyn 3, oherwydd ein bod ni wedi cael y cyfle i greu llawer o ffrindiau newydd.

Roedd dysgu sut i chwarae'r pBuzz gyda'n hathrawon a gyda Mr Roberts, yn ogystal â datblygu ein sgiliau cerddorol yn brofiad bendigedig hefyd, ac roeddem ni'n ddigon lwcus i gael y profiad o chwarae gyda Cherddorfa Jazz Ieuenctid byw yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd! Gorffenon ni ein hamser ni ym Mlwyddyn 3 yn ymarfer ac yn perfformio sioe CA2, Matilda, ac roedd yn brofiad gwych!

Bl. 4: Olwen

Rydyn ni wedi mwynhau llawer o brofiadau gwych ym mlwyddyn 4. Cafon ni amser arbennig yn ymweld â Chanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd, yn enwedig wrth deithio ar y cwch cyflym o amgylch y Bae ac wrth ymweld â'r Senedd a'r siambr! Roedden ni hefyd wedi mwynhau cael y cyfle i ymweld â stadiwm Criced Morgannwg - roedd y gweithdy ar hanes criced yng Nghymru a'r gwersi criced yn wych.

Yn ystod y tymor cyntaf, cafon ni brofiad arbennig o ddysgu sut i chwarae'r jSax yn ein gwersi wythnosol, roedd pawb yn gyffrous iawn wrth berfformio i rieni yn dilyn ein gwers olaf. Roedden ni wrth ein boddau yn ymarfer a pherfformio y sioe Matilda.

Yn ein gwersi gwyddoniaeth, cawson ni gyfle i gynllunio llawer o ymholiadau diddorol, ein hoff un oedd creu catapwlt a mesur pellter - roedd rhai yn gallu taflu'n bell iawn! Rydyn ni wedi mwynhau creu gwaith celf lliwgar yn efelychu Tomos Roberts a Quentin Blake. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith mathemateg ddiddorol ac wedi mwynhau gweithio ar Sumdog.

Mwynheuon ni ein thema 'Amddiffyn ac Ymosod', yn enwedig dysgu am Gestyll Cymru a hanes Gwenllïan. Roedd ein taith i Gastell Caerdydd yn wych, dysgon ni am hanes y castell a sut oedd y teulu Bute yn byw. Roedd y gweithdy arfau yn anhygoel ac roedd cyfle i ni ddal cleddyf trwm! Ein hoff lyfrau dosbarth eleni oedd Cyfrinach Castell Coch, The Worst Witch a The Hodgeheg. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ein parti dosbarth gyda llawer o fwyd a gemau gwych.

Bl. 4: Culhwch

Eleni mae'r plant wedi mwynhau dysgu am Gestyll Cymru a chreu castell eu hunain allan o glai. Roeddynt wedi mwynhau mynd ar ymweliad i Ganolfan y Bae ac i'r Senedd gan ysgrifennu Blog am y Bae ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Roeddynt wedi mwynhau dysgu am y corff a gwneud gwaith creadigol am y corff yn ogystal â chael yr ymwelydd Dr Roberts i fewn i ateb cwestiynau. Roeddynt hefyd wedi ymateb yn bositif i'r prosiect 'Trees for Change' pan yn dysgu am newid hinsawdd.

Mae pawb yn mwynhau gwneud y profion Mathemateg Mawr ar y Chromebooks yn wythnosol ac yn falch iawn o'i cynnydd yn ogystal a gwneud Problem yr Wythnos.

Mae pawb wedi mwynhau datblygu ei sgiliau T.G gan greu gyflwyniadau amryeiol, i-movies, cyd-weithio ar Minecraft Education a chael gweithdy microbits a Technocamps

Mae'r plant wedi mwynhau'r holl brofiadau o arddio, cael gwresi j-sax, clwb Ffrangeg, y mabolgampau a chymryd rhan yn y Sioe Matilda.

Bl. 5: Macsen

Eleni rydym wedi mwynhau nifer o brofiadau newydd. Rhai o'n hoff bethau oedd mynd ar gwrs preswyl am y tro cyntaf i Abernant a cael cyfle i drio padlfyrddio, ffensio, abseilio a gweithgareddau ar y llyn. Rydym hefyd wedi mwynhau mynd i weld Peter Pan yn Theatr y Sherman, mynd i Wyl y Gelli a gwrando ar awduron yn siarad am eu llyfrau, mynd ar daith dan ddaearol i Bwll Mawr a cael gwers Fictoraidd yn Ysgol Maestir, Sain Ffagan. Rydym hefyd wedi dysgu sgiliau newydd wrth cael gwersi Jsax, cymryd rhan mewn gweithdy Technocamps gan ddefnyddio Lego spikes a chymryd rhan mewn gweithdy Cemeg. Rydym wedi mwynhau ein sesiynau gyda Cardiff Met, lle rydym wedi cael y cyfle i ddatblygu ein sgiliau hoci, rygbi a thenis. Mae wedi bod yn flwyddyn cyffrous i ni wrth ddysgu am y Chwyldro diwydiannol, datblygu ein sgiliau digidol wrth ddefnyddio Mircobits a chreu gwefan. I orffen y flwyddyn cafon ni hwyl yn perfformio fel rhan o gorws y Matilda.

Bl. 5: Elen

Rydym wedi cael blwyddyn yn llawn profiadau bythgofiadwy yn nosbarth 5 Elen eleni. Heb os nac oni bai ein trip i Abernant fydd yn aros yn y cof fwyaf. O'r bwyd blasus, i fod yn ddewr a mynd amdani i ddysgu sgiliau newydd heriol megis padlfyrddio, cael hwyl yn rhannu ystafelloedd gyda'n ffrindiau gorau i'r gystadleuaeth ystafell taclusaf, roedd pob munud yn lawn heriau newydd a hwyl a sbri! Profiad anhygoel i bawb. Trip arall a wnaeth wir ein hysbrydoli oedd ein taith i Ŵyl y Gelli. Mi roeddwn i gyd wrth ein boddau yn ymgolli ym myd y llyfrau ac yn cael y cyfle i wrando ar awduron enwog megis Maz Evans a chlywed rapiau barddonol Alex Wharton. Roedd yr athrawon yn cael modd i fyw wrth weld pawb yn darllen a rapio ar y bws ar y ffordd adref. Roedd dychymyg pawb wedi'u tanio!
Roeddwn ddigon ffodus i gael sawl trip arall, lawr i'r pwll glo ym Mhwll Mawr, ysgol Oes Fictoria yn Sain Ffagan a thrip i Theatr y Sherman i weld Peter Pan! Rydym wedi bod yn dysgu yn y dosbarth hefyd, wir yr! Roedd dysgu am y blaned a'r moroedd ac am hawliau plant yn ystod yr

Oes Fictoria yn agoriad llygaid i ni gyd. Cafwyd llawer o hwyl yn creu 'Dragons' Den' blwyddyn 5 a chreu dyfeisiadau a'u cyflwyno i'n gilydd gan obeithio am fuddsoddiad neu ddau!
Mi wnaethom ni fwynhau perfformio yn Matilda ac rydym mor gyffrous mai ein tro ni fydd hi i serennu flwyddyn nesaf!
Mae wedi bod yn flwyddyn llawn dop ac rydym wir wedi mwynhau cydweithio gydag ein ffrindiau. Rydym wedi cymryd bob cyfle a gyflwynwyd i ni ac wedi gwneud Mrs Parry yn athrawes falch iawn. Ymlaen i flwyddyn 6!

Bl. 6 Math

Rydym wedi cael amser gwych ym mlwyddyn 6. Un o agweddau mwyaf cofiadwy'r flwyddyn oedd ein gwaith ar y Dociau a Bae Caerdydd. Roedd yn agoriad llygad wrth i ni archwilio hanes cyfoethog a diwylliant aml ddiwylliannol yr ardaloedd hyn gan gynnwys perfformiad 'Betty Campbell' gan y cmwni Mewn Cymeriad, lle daeth ei straeon a'i bywyd yn fyw.

Roedd wythnos STEM yn anhygoel! Roeddem wrth ein boddau gyda'r gwaith a'r gweithdai a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd a TechnoCamps. Roedd pawb wedi mwyhau cymryd rhan mewn arbrofion adwaith Coke a Mentos a chreu bar siocled ein hunain. Gwaneth y Clwb STEM yn arbennig i gipio buddugoliaeth yn nghystadleuaeth Lego League Sir Caerdydd.

Cawsom hefyd brofiadau i gyfoethogi ein gwaith yn y dosbarth. Datblygodd gweithdy Crucial Crew ein sgiliau bywyd hanfodol, tra bod ein taith hanes i Fae Caerdydd wedi agor ein llygaid i hanes bywiog a lliwgar ein dinas. Uchafbwynt y flwyddyn gyfan i bawb oedd wythnos yn llawn gweithgareddau yn Llangrannog lle cawsom gyfle i fynd i gartio, sgïo, trampolîn a gwneud ffrindiau newydd o ysgolion y Clwstwr ac roedd y Noson Lawen a'r Disgo yn llawn hwyl a chyffro. Roedd Gŵyl y Gelli yn uchafbwynt ysbrydoledig hefyd, ble cawsom y cyfle i gyfarfod a chlywed oddi wrth awduron go iawn.

Bu rhai ohonom yn arddangos ein doniau yn Eisteddfod yr Urdd a gwahanol gemau a chystadlaethau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Perfformiodd tîm pêl-rwyd y merched yn wych wrth iddynt gael eu coroni'n Bencampwyr Cenedlaethol yng Nghystadleuaeth yr Urdd.

Roedd y cyngerdd Nadolig yn Eglwys Glenwood yn galonogol a buom yn arddangos ein doniau yn y sioe 'Matilda'. Roedden ni wrth ein bodd yn canu'r caneuon 'Briws' a 'Gwrthryfela - cymaint o hwyl a'n llawn egni!

Roedd Blwyddyn 6 yn ffordd anhygoel a bythgofiadwy i orffen ein hamser yn y Berllan Deg. Roedd pob eiliad yn llawn dysgu, chwerthin, ffrindiau, ac atgofion fydd yn byw gyda ni am byth.

Bl. 6 Mathonwy

Rydym wedi datblygu llawer o sgiliau eleni, gan gynnwys sgiliau creadigol ieithyddol, gwyddonol, hanesyddol a digidol. Rydyn ni wedi bod yn dysgu llawer am Ddatblygiad y Dociau a Bae Caerdydd, ac fe ddaeth yr hanes yn fyw yn sioe Betty Campbell gan Mewn Cymeriad. Dysgon ni mwy am adeiladau'r Bae ar ein taith gerdded gyda Cardiff Bay Tours cyn cael sesiwn am ddiogelwch dŵr gyda'r Frigad Dân a gwylio drama fer Y Naid gan gwmni Na Nóg. Cafon gyfle gwych i ddatblygu ein sgiliau creeadigol gyda gwers celf gyda'n riant a artist leol Rachel Rasmussen.

Fe wnaethom ddatblygu llawer o sgiliau STEM yn ystod Wythnos STEM. Cafon ni weithdy am blanedau gan Brifysgol Caerdydd, cafwydd llawer hwyl yn y gweithdy Technocamps. Bu Tirion, Gwilym a'r criw Lego League yn brysur yn paratoi tuag at y gystadleuaeth a nhw ddaeth yn Bencampwyr! Datblygodd pawb nifer o sgiliau yn yr Olwyn TASC ac arbrofion, megis yr arbrawf glŵp a Coke a Mentos, ond y ffefryn oedd y dasg creu bar siocled.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu ein sgiliau darllen mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys y Cylch Darllen boreuol. Fe wisgodd pawb fel eu hoff gymeriad o lyfr ar Ddiwrnod y Llyfr. Rydym wedi mwynhau nifer o nofelau dosbarth eleni gan gynnwys 'Y Crwt yn y cefn' a 'The Lost Bear' a 'Ta ta Tryweryn.' Cawsom gyfle gwych i fynychu Gwyl y Gelli eleni lle adfywiwyd ein diddordeb ym myd llyfrau gan gwrdd ag awduron cyfoes megis Jeff Kinney - breuddwyd wedi ei wireddu i nifer yn y dosbarth.

Un uchafbwynt y flwyddyn oedd wythnos gyfan yn Llangrannog lle cawsom gyfle i wibgartio, sgio, trampolino a chreu ffrindiau newydd o ysgolion y clwstwr ac roedd y Noson Lawen a'r Disgo yn llawn hwyl a sbri gyda pawb yn morio canu 'Yma o Hyd' ar ddiwedd y noson. Braf oedd cael ambell wers Ffrangeg gyda Madame Jones a roedd y diwrnodau pontio gyda Bro Edern hefyd yn brofiad gwerthfawr wrth wneud ffrindiau newydd a chwrdd ag athrawon newydd.

Cawson ni flwyddyn o ddathlu ein Cymreictod eleni. Rydym yn falch iawn o Mared a'r Dreigiau a weithiodd yn ddiwyd i ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith. Dathlodd yr ysgol Dydd Gŵyl Dewi yn y neuadd ac roedd y seremoni cadeirio yn uchafbwynt i Ioan am ei gerdd am daith ffoadur. Roedd nifer o'r plant eleni wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn canu a llefaru ac yn cystadlu yn y cystadleuaethau Celf & Chrefft. Fe wnaethon ni ddysgu am hanes Tryweryn ac roedd cael cyfle i wrando a gofyn cwestiynau i Mr Roberts, mab Mrs Martha Roberts, cyn-brifathrawes Ysgol Capel Celyn yn brofiad gwerthfawr tu hwnt.

Mae chwaraeon yn bwysig i nifer yn y dosbarth. Mwynheuwyd nifer o gemau rygbi, pêl rwyd, pêl droed a chriced yn ystod y flwyddyn yn cynrychioli'r ysgol. Bu'r sesiynau chwaraeon yn Met Caerdydd yn llawer o hwyl gyda adnoddau gwych dan do - adnodd gwych gyda'r holl law a gafwyd eleni! Roedd y tîm pêl droed (a Mr Williams) wrth eu boddau yn mynd i Southampton i gynrychioli Cardiff City FC. Aeth criw o flwyddyn 6 hefyd i ffilmio rhaglen Tekkers - profiad gwych i fod mewn stiwdio deledu yn chwarae gemau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond uchafbwynt y flwyddyn i Mrs John oedd mynd â'r tîm pêl rwyd merched a'r tîm cymysg i dwrnament yr Urdd yn Aberystwyth ac yn wir tîm y merched oedd yn fuddugol - tîm gorau Cymru! Cafom hefyd llawer o hwyl ar Ddiwrnod y Mabolgampau pan oedd Blwyddyn 6 yn cymryd rôl pwysig fel Capteiniad Llys, Tywi oedd yn fuddugol eleni!

Bu'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco hefyd yn brysur drwy gydol y flwyddyn ac roedd Erin a Megan bob amser yn barod i arwain ac i gyfrannu yn ystod nifer o gyfarfodydd. Mae'r ardd bellach yn llwyddiant mawr gyda'r plant wrth eu boddau yn plannu, chwynnu a gwerthu dan arweiniad Mrs Bull. Cawson ni ddiwrnod i godi arian ar gyfer elusen Ysbyty Velindre er cof am hannwyl Mrs Storm McBean. Gwisgodd pawb ddillad porffor, ei hoff liw, a chasglu nawdd yn rhedeg o amgylch y cae.

Mae nifer o berfformwyr yn ein mysg ac mae criw Bl6 wedi bod yn ffyddlon i'r Clwb Shakespeare. Roedd yn bleser cael cynnal ein cyngerdd Nadolig yn Eglwys Glenwood ac roedd naws hyfryd yno. Bu'r côr hefyd yn canu wrth Y Senedd. Mae nifer yn elwa o wersi offerynnol yn yr ysgol ac fe fwynhaodd pawb y gwasanaeth gitar. Uchafbwynt i Flwyddyn 6 eleni oedd Sioe Matilda. Mi fydd caneuon 'Pan fyddai'n fawr' 'Briws' a 'Gwrthryfelwn' yn aros yn fyw yn y cof am amser hir. Mae wedi bod yn flwyddyn fythgofiadwy; rydyn ni wedi mwynhau pob eiliad ym mlwyddyn 6.

CARDIFF COUNCIL/GYNGOR CAERDYDD
SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE / CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2023-2024

Governing Body/Corff Llywodraethu of: Ysgol-y-Berllan Deg

	Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr		Actual Expenditure/ Gwariant Cyflawnedig	
	£	£	£	£
Staffing costs/Costau Staff				
Teaching Costs/Costau Addysgu	1,120,037		1,119,660	
Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig	38,044		37,803	
Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad	0		0	
Short Term Supply/Llanw Byr Dymor	0		3,851	
Long Term Supply/Llanw Hir Dymor	34,188		45,911	
Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig	0		0	
Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwywyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwywyr	260,877		223,789	
Foreign Language Assistants/Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor	0		0	
Technicians/Technegwyr	0		0	
Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd	21,187		16,615	
Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb	0		0	
Administrative Staff/Staff Gweinyddol	55,988		54,704	
Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon	0		0	
Training Costs/Costau hyfforddi	8,813		6,508	
Other Staff Costs/Costau staff eraill	40,410		93,142	
Performance Management/Rheoli Perfformiad	2,000		1,957	
Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau Staff		1,581,544		1,603,941
Premises Related Costs/Costau Eiddo				
Caretaking Staff/Staff Gofalwyr	35,943		37,399	
Domestic Staff/Staff Domestig	14,536		13,165	
Grounds Staff/Staff y Tir	3,215		3,346	
Cleaning Costs/Costau Glanhau	53,026		50,620	
Energy Costs/Costau Ynni	52,134		45,148	
Rates/Cyfraddau	42,265		42,265	
Repairs and Maintenance/Atgyweiriau a Chynhaliaeth	17,085		14,808	
Water/Dŵr	10,518		13,491	
Total Premises Related Costs/Cyfanswm Costau Eiddo		228,722		220,241
Transport Costs/Costau Cludiant				
Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion	0		6,529	
Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff	200		105	
Vehichle Costs/Costau Cerbydau	0		0	
Total Transport Costs/Cyfanswm Costau Cludiant		200		6,634

Supplies and Services/Cyflenwadau a Gwasanaethau				
Teaching Materials/Adnoddau Addysgu	12,500		14,004	
Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth	100		3,575	
Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau Llyfrgell	0		0	
Catering Costs/Costau Arlwyo	4,500		3,623	
Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddosbarthu / Cynilion	-80,056		0	
Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu	4,150		5,873	
Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr	0		0	
Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau	0		0	
Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol	1,700		35,274	
Clerk to Governing Body/Clerc y Corff Llywodraethu	1,674		980	
Other office costs/Costau swyddfa eraill	1,185		1,529	
Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	13,519		10,575	
Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion	0		0	
Subsistence and expenses/Cynhaliaeth a threuliau	0		1,600	
Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		-40,728		77,032
Central Services/Gwasanaethau Canolog				
School Meals/Prydau Ysgol	0		0	
Service Level Agreements/Trefniadau Lefel Gwasanaeth	16,802		15,431	
Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog		16,802		15,431
Income/Incwm				
Additional Central Funding/Nawdd Canolog Ychwanegol	-241,531		-24,393	
Community Education/Addysg Cymunedol	0		0	
Donations/Rhoddion	0		-51,709	
Lettings/Gosodiadau	-9,690		-9,740	
Other Income/Incwm arall	0		-765	
Grant Income/Incwm rhent	0		-241,393	
Sales/Gwerthiannau	0		0	
School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol	0		0	
Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant	-4,200		-7,671	
Total Income/Cyfanswm Incwm		-255,421		-335,672
Interest and Other/Llog ac Arall				
Interest on investments/Llog ar fuddsoddiadau	0		0	
School Investments/Buddsoddiadau Ysgol	0		0	
Withdrawl Investments/Buddsoddiadau Dileadau	0		0	
School Deficit/Gwariant Ysgol				
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Interest/Llog	0		0	
		0		0
Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac arall				
Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant Net		1,531,119		1,587,608
Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsoddwyd a ddygwyd ymlaen		-62,849		
Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd		-42,265		-42,265
Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys				-119,338
Revised Net Expenditure/Gwariant Net Diwygiedig		**1,426,005**		**1,426,005**

Summary/Crynodeb	
Total resources available in 2023-2024 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2023-2024	£
School balances Brought forward from 2022-2023/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2022-2023	62,849
School Loans Brought forward from 2022-2023/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2022-2023	0
Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn	0
Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig	1,468,270
Total/Cyfanswm	**1,531,119**
Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig	1,587,608
Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau	0
Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro	0
Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiant â chyfraddau a glustnodir	0
Total balance carried forward to 2024-2025/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2024-2025	**-56,488**
Statement of Balances Held/Datganiad Balansau	£
Uninvested Balance as at 31st March 2024/Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2024	-56,488
Invested Balance as at 31st March 2024/Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2024	0
Outstanding Loans as at 31st March 2024/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2024	0
Total Balances held as at 31st March 2024/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2024	**-56,488**

for Corporate Director Resources
Prif Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau